

Association of  
Independent  
Museums

# Canllaw Llwyddiant: Blychau Rhoddion

Awdur: Judy Niner, Development Partners

# Cynnwys

► Cyflwyniad	03
► Arian parod neu heb arian parod?	04
► Prynu neu brydlesu eich blwch rhoddion neu ddyfais digyswllt	06
► Lleoliad, lleoliad, lleoliad	08
► Rheoli a chadw cofnodion	10
► Negeseuon	12
► Rhoddion a awgrymir	14
► Canlyniadau blwch rhoddion	16
► Rhodd Cymorth a'r cynllun Rhoddion Bach Rhodd Cymorth (GASDS)	18
► Cagliad	20
► Cyfeirnodau	21
► Astudiaethau achos	23

# Cyflwyniad


Gall rhoddion ar y safle chwarae rhan bwysig yn strategaeth codi arian gyffredinol amgueddfa am ddau brif reswm. Yn gyntaf, mae presenoldeb blwch neu ddyfais rhoddion yn atgyfnerthu natur elusennol yr amgueddfa. Yn ail, gall yr incwm ei hun (gyda neu heb Rodd Cymorth) fod yn sylweddol, boed yn ddigyfnygedig neu wedi'i godi ar gyfer prosiect penodol.

Yn bendant mae ambell air i gall i'w deall os ydych am gael y canlyniadau gorau. Mae blychau rhoddion yn fuddsoddiad sylweddol ond, wedi'u rheoli'n dda, gallant ddychwelyd y buddsoddiad hwnnw dro ar ôl tro.

Mae'r Canllaw Llwyddiant hwn, a baratowyd ar gyfer AIM gan Development Partners (DP), yn diweddarau canllaw gwreiddiol a ysgrifennwyd yn 2014 gyda gwybodaeth newydd a gasglwyd o arolwg o aelodau AIM yn haf 2025. Gyda'i gilydd, croesawodd y sampl hon o 60 o sefydliadau 3.5 miliwn o ymwelwyr yn 2024: mae 67% yn codi tâl mynediad, a 33% â mynediad rhad ac am ddim. Mae'r adborth hwn yn cael ei gyfuno ag ymchwil arall a phrofiad DP o weithio gydag amgueddfeydd, mawr a bach, ledled y DU.

Y prif newid ers i'r papur cyntaf gael ei ysgrifennu yw cynnydd technoleg ddigidol a dyfeisiau rhoddion digyswllt. Mae mwy a mwy o amgueddfeydd wedi bod yn defnyddio'r dyfeisiau hyn, fel arfer i ategu yn hytrach na chymryd lle blychau arian traddodiadol, ac rydym yn dechrau dysgu gwersi defnyddiol o'r profiadau hyn.

Bydd y canllaw hwn yn rhoi cyngor ymarferol i chi ar y defnydd o flychau rhoddion a dyfeisiau digyswllt a hoffem ddiolch i ymatebwyr arolwg 2025 sydd wedi caniatáu inni rannu eu profiad.



Inspired by what  
you've seen today?

As a charity, we rely on your support to:  
• spark a child's lifelong love of learning  
• set a researcher on a journey of discovery  
• create a manuscript for future generations

Suggested donation £5/\$5

Donate online at  
[bl.uk/support](https://bl.uk/support)



PLEASE  
DONATE  
TODAY

PLEASE  
DONATE  
TODAY

Help us open up a world  
of ideas and inspiration  
for everyone

**DONATE  
TODAY**

[bl.uk/support](https://bl.uk/support)

Arian  
parod  
neu heb  
arian  
parod?

Image Credit: British Library

# Arian parod neu heb arian parod?

Yn ôl arolwg Finder 2025, mae 1 o bob 8 o bobl yn y DU yn defnyddio arian parod bob dydd tra bod bron i 1 o bob 10 byth yn ei ddefnyddio. Felly mae'r rhan fwyaf ohonom yn dal i ddefnyddio arian parod rhywfaint o'r amser.

Defnyddiwyd arian parod i wneud dim ond 12% o'r holl daliadau yn y DU yn 2023, a disgwylir i hynny ostwng i 6% o'r taliadau yn 2033. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bobl yn parhau i gario arian parod rhag ofn eu bod eisiau siopa mewn llefydd sy'n derbyn arian parod yn unig neu rhag ofn bod argyfwng, fel colli cerdyn debyd neu ffôn.

Mae'r cynnydd mewn pobl sy'n dibynnu ar daliadau digidol wedi annog llawer o amgueddfeydd i osod dyfeisiau rhoddion digyswllt. Mae'r dyfeisiau hyn yn caniatáu i ymwelwyr gyfrannu gan ddefnyddio cardiau debyd, Apple Pay, Google Pay ac ati. O'n harolwg o aelodau AIM, mae gan ychydig dros 40% o'r sefydliadau sy'n ymateb ddyfeisiau digyswllt erbyn hyn.

Mae cwmnïau sy'n cyflenwi dyfeisiau digidol yn gwneud honiadau amrywiol ynghylch llwyddiant eu cynhyrchion i godi lefelau rhoddion. Nid oedd adborth gan aelodau, yn gyffredinol, mor gadarnhaol. Yn bennaf mae hyn oherwydd y gall dyfeisiau digidol godi ffioedd parhaus, ar gyfer rhentu dyfeisiau (os nad ydynt yn cael eu prynu'n llwyr) a thanysgrifiadau gwasanaeth, yn ogystal â chostau trafodion. Mae nifer o achosion lle mae'r costau wedi bod yn uwch nag incwm ac amgueddfeydd wedi canslo eu contractau dyfeisiau digyswllt.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod y ffactorau sy'n pennu llwyddiant dyfeisiau digidol yn union yr un fath â'r rhai a all effeithio ar berfformiad blwch arian parod, sef:

- Ei safle a'i leoliad
- Ei neges
- P'un a yw staff/gwirfoddolwyr yn gofyn am roddion

Mae unedau hybrid yn derbyn arian parod yn ogystal â chael swyddogaeth tap-i-roi, gan ddarparu ar gyfer pob dewis ymwelwyr.

Mae dyfeisiau digidol yn cynnig rhai manteision ychwanegol, ond gallant hefyd godi problemau:


## Manteision

Hawdd hawlio Rhodd Cymorth  
Dim angen cyfri / rheoli arian parod  
Dim risg o arian parod yn cael ei ddwyn  
Cyfle i gasglu data personol

## Problemau posibl

Angen pwynt trydanol  
(neu drydanu batri)  
Yn ddelfrydol angen Wifi da  
(neu gerdyn SIM)  
Costau parhaus

Rhyngddynt, mae gan ymatebwyr yr arolwg 174 o flychau neu ddyfeisiau rhoddion, y mae ychydig dros 70% ohonynt ar gyfer arian parod. Mae'r rhain yn parhau i godi arian hanfodol, hyd yn oed i'r sefydliadau hynny sydd â dyfeisiau digidol.



**Prynu neu  
brydlesu eich  
blwch rhoddion  
neu ddyfais  
digyswllt**

Image credit: Elgin Museum



## Prynu neu brydlesu eich blwch rhoddion neu ddyfais digyswllt

Mae yna nifer o bethau i feddwl amdanynt cyn prynu neu brydlesu'ch blwch neu ddyfais rhoddion:

- Arian parod, digidol neu hybrid?
- Ble mae'n mynd i gael ei roi?
- Beth yw'ch cyllideb?

Mae sawl darparwr ag enw da yn y DU o ddyfeisiau digidol a blychau rhoddion ariannol, pob un â chynhyrchion a gwasanaethau ychydig yn wahanol. Mae blychau arian parod yn dod mewn ystod eang o siapiau a meintiau, gyda thagiau pris i gyd-fynd â'i gilydd. Gyda dyfeisiau digidol, gallwch ddechrau am gyn lleied â £25-50 y mis i rentu dyfais ddigyswllt cownter (mae ffioedd cyflwyno, brandio a phrosesu taliadau yn ychwanegol), ond mae cost podiwm annibynnol wedi'i frandio gyda dyfais gyswllt mewnol ar hyn o bryd dros £1,000 (gyda ffioedd gwasanaeth misol a ffioedd trafodion yn ychwanegol).

Mae'n bwysig cymharu dyfynbrisiau a siarad â chyflenwyr am anghenion eich sefydliad. Ar gyfer digidol, dewiswch gyflenwr sy'n cynnig cefnogaeth a hyblygrwydd - yn enwedig os ydych chi'n newydd i godi arian yn ddigidol.

Os ydych chi'n dewis blwch rhoddion arian parod, bydd y dyluniad a ddewiswch yn cael effaith ar werth y rhoddion y byddwch yn eu derbyn. Gofynnir yn aml i ni a fyddai blwch wedi'i deilwra i thema amgueddfa, fel casgen wisgi mewn amgueddfa distyllfa, yn arwain at fwy o roddion na blwch Perspex clir, neu a yw blychau rhyngweithiol sy'n gyfeillgar i blant yn fwy llwyddiannus.

Mae'r ateb yn glir: Blychau Perspex tryloyw ar blinthiau, wedi'u cyflwyno'n broffesiynol yw'r ffordd orau o sicrhau'r symiau mwyaf o roddion. Mae ymchwil yn dangos:

- Mae seicoleg rhoi yn dangos bod pobl yn llai tebygol o roi arian mewn 'twll du'. Maen nhw eisiau gweld ble mae eu harian yn mynd.
- Mae rhoddion ymwelwyr yn cael eu heffeithio'n fawr gan ymddygiad rhoddion canfyddedig ymwelwyr blaenorol. Felly, mae'n bwysig bod rhoddion blaenorol i'w gweld yn glir gan fod hyn yn annog rhoi.
- Gall blychau rhoddion rhyngweithiol, yn benodol y rhai sydd wedi'u hanelu at blant, arwain at nifer fawr o roddion. Fodd bynnag, mae'r rhain fel arfer ar ffurf newid mân. Gan fod y darnau arian hyn bron bob amser yn cael eu darparu gan oedolion sydd gyda'r plant, efallai y bydd yr oedolion hynny yn llai tebygol o wneud rhodd ychwanegol, mwy gwerthfawr oherwydd eu bod yn teimlo eu bod eisoes wedi rhoi. Hefyd, gall y math hwn o ddyfais bychanu'r busnes difrifol o ofyn am gefnogaeth elusennol i'ch sefydliad. Os oes gennych eisoes ddyfais rhoddion rhyngweithiol hwyl nad ydych am ei golli oherwydd ei fod yn arddangosfa boblogaidd, symudwch hi i ffwrdd o'r ardaloedd blwch rhoddion allweddol (e.e. mynedfa ac allanfa) a dileu negeseuon elusennol, heblaw am 'diolch'.

Dylai blychau rhoddion arian parod fod yn ddigon trwm i fod yn ddiogel, ond yn bosibl eu symud. Mae hyn yn eich galluogi i newid lleoliad y blwch os oes gennych arddangosfa dros dro, neu os ydych am arbrofi gyda'r lleoliad i gynyddu rhoddion. Mae blychau rhoddion bach, pen desg yn gyffredinol yn edrych yn ansicr ac yn tueddu i annog rhoddion darnau arian bach.



# Lleoliad, lleoliad, lleoliad

Image credit: HMS Warrior, Portsmouth Historic Dockyard



# Lleoliad, lleoliad, lleoliad

Gallai lleoliad eich blwch neu ddyfais rhoddion gael effaith sylweddol ar faint o arian rydych chi'n ei godi. Yn ddelfrydol, bydd yn agos at ble gall staff a/neu wirfoddolwyr ofyn i ymwelwyr gyfrannu. Fel arall, mae ger y fynedfa neu'r allanfa yn tueddu i fod yn fwyaf llwyddiannus. Os ydych chi eisiau codi arian ar gyfer arddangosfa neu weithgaredd penodol, gosodwch flwch / ddyfais mewn lleoliad priodol a byddwch yn glir ynghylch beth fydd y rhodd yn mynd tuag ato. Cofiwch, fodd bynnag, os ydych yn gofyn am roddion at ddiben penodol, mae angen gwario'r arian a godir ar y diben hwnnw yn unig.

*“Mae blychau rhoddion wrth y ddesg flaen gyda gofyn rhodd gweladwy yn gweithio'n dda.”*

*“Rydym yn bendant yn cael canlyniadau gwahanol o wahanol leoliadau o bwyntiau rhoddion, mae un bocs wedi'i leoli ar ddiwedd taith wirfoddolwyr sy'n gwneud y gorau.”*

## **Aelodau AIM**

Mae'n well dod o hyd i flwch / ddyfais rhoddion yn erbyn cefndir plaen fel bod y graffeg a'r neges elusennol yn weladwy yn glir. Peidiwch â chuddio blwch rhoddion yng nghanol cymysgedd o negeseuon, hysbysiadau neu ddehongliadau eraill.

Mae angen i chi feddwl yn ofalus am ble i leoli dyfais ddigidol a allai fod angen signal Wi-Fi cryf a chyflenwad trydan.

Rhowch gynnig ar wahanol leoliadau. Mae rhai o'r ymatebwyr arolwg wedi ceisio symud eu blychau / dyfeisiau i wahanol leoliadau, gan fonitro canlyniadau'n ofalus. Y canlyniad yw gwelliant sylweddol mewn incwm rhoddion.



# Rheoli a chadw cofnodion

Image credit: Mary Rose Museum



## Rheoli a chadw cofnodion

Ar ôl i chi benderfynu ar fath a lleoliad eich blychau / dyfeisiau rhoddion, cynlluniwch y prosesau a'r tasgau sydd eu hangen i'w rheoli.

Dylid gwagio blwch rhoddion yn rheolaidd, ond byth yn gyfan gwbl - gall yr arian sy'n weladwy yn y blwch gael effaith galonogol ar roddwyr ac effaith sylweddol ar y swm rydych chi'n ei dderbyn. Mewn arbrofion maes a gynhaliwyd gan yr Athro Martin a'r Athro Randal (2008), dangosodd cymariaethau rhwng blychau gwag a'r rhai sy'n cynnwys fflôt fod blychau heb fflôt yn derbyn hyd at 50% yn llai mewn rhoddion na'r rhai sydd â fflôt.

Mae cyfansoddiad y fflôt hefyd yn cael effaith ar ymddygiad rhoddion. Yn yr un arbrawf, dangosodd Martin a Randal sut mae symiau rhoddion yn cael eu heffeithio gan ba mor hael y mae pobl eraill yn cael eu hystyried i fod. Wrth gymharu tri blwch â niferoedd gwahanol o ddarnau arian, a nodiadau arian papur bach a mawr, arweiniodd y blwch gyda nifer fawr o ddarnau arian at y tueddiad uchaf i roi ond cynhyrchodd roddion llai fesul ymwelydd. Mewn cyferbyniad, y blwch gyda'r nodiadau mwyaf a gafodd y lleiaf o roddion ond y rhodd gyfartalog fesul ymwelydd oedd yr uchaf. Yn gyffredinol, mae pobl yn rhoi'r hyn maen nhw'n ei weld sydd wedi'i roi gan ymwelwyr blaenorol, felly gwnewch yn siŵr bod cynnwys eich blwch yn adlewyrchu'r rhoddion yr hoffech eu derbyn ac rydych yn eu hystyried yn fwyaf priodol i'ch cynulleidfia. Rydym yn argymhell peidio byth â gadael fflôt gyda darnau arian o werth is na £1.

Bob tro y bydd pob blwch rhoddion yn cael ei wagio (byth yn llai nag wythnosol) dylid cofnodi'r swm a dderbynnir. Nid yn unig y bydd hyn yn eich galluogi i fesur y canlyniadau, cyfrifo ffigurau cyfartalog rhoddion fesul ymwelydd ar wahanol adegau o'r flwyddyn a rhoi cynnig ar newidiadau o ran lleoliad a negeseuon, ond efallai y byddwch hefyd yn gallu hawlio dan Gynllun Rhoddion Bach Rhodd Cymorth ar hyd at £8,000 o roddion (gweler isod).

Mae cadw cofnodion ar gyfer dyfeisiau digidol yn llawer mwy syml - mae'n cael ei wneud i chi! Mae dangosfwrdd yn caniatáu ichi fewngofnodi a gweld mewnwelediadau amser real megis faint rydych chi wedi'i godi, pryd a ble. Mae gan rai dyfeisiau ffordd o gipio Rhodd Cymorth wedi'i adeiladu i'w systemau a byddant yn hawlio'r Cymorth Rhodd i chi yn awtomatig.



Canal &  
River Trust  
Making life better by water

Touch here  
to donate



VISA



Apple Pay

Google Pay



As a charity we  
urgently need  
your support to  
keep the canals  
you love alive.

# Negeseuon

Image credit: National Waterways Museum



## Negeseuon

Cyn gynted ag y bydd pobl yn cyrraedd eich safle, dylent gael eu gwneud yn ymwybodol eich bod yn cael eich rhedeg gan elusen (gan dybio eich bod chi). Mae llawer o ddryswch ymhlith y cyhoedd ynglŷn â sut mae amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth yn cael eu hariannu - mae neges glir, syml sy'n cyfathrebu eich math o lywodraethu yn paratoi pobl i wario yn y siop a'r caffî, yn ogystal â chyfrannu.

Bydd y cyfathrebiadau ar ac o amgylch pob blwch rhoddion yn cael effaith uniongyrchol ar ganlyniadau, ac effaith anuniongyrchol ar eich llwyddiant codi arian ehangach. Rôl bwysig y blwch rhoddion yw atgyfnerthu'r ffaith mai elusen yw eich amgueddfa.

*“Mae gan ein blychau digyswllt ac arian parod ddelweddau cryf - mae gan y sgriniau digyswllt sioe sleidiau o 9 delwedd wahanol sy'n cael eu harddangos un ar ôl y llall nes bod rhoddwr yn cyffwrdd â'r sgrin.”*

### **Aelod AIM**

Rydym yn argymhell arbrofi gyda thestun a fformat eich negeseuon blwch rhoddion, gan ddarganfod beth sy'n gweithio orau. Peidiwch â bod yn swil! Gwnewch yn glir eich bod yn gofyn am roddion.

Peidiwch byth ag anghofio dweud 'diolch'.



# Rhoddion a awgrymir

Image credit: Ashmolean Museum Oxford



## Rhoddion a awgrymir

Gall hyrwyddo swm rhodd awgrymedig gynyddu cyfanswm symiau rhoddion ac mae'n arbennig o berthnasol mewn amgueddfeydd mynediad di-dâl. Mae'r hyn rydych chi'n ei osod fel y lefel rhodd a awgrymir yn hanfodol: gall pris rhy isel ddibrisio'r ymweliad â'r amgueddfa, tra gall lefel rhy uchel atal pobl rhag rhoi o gwbl. Byddwch yn barod i roi cynnig ar wahanol symiau, gan feddwl am gyfansoddiad eich cynulleidfa. Er enghraifft, efallai y bydd twristiaid yn barod i roi mwy na phobl leol - felly gallech geisio cynyddu'r lefel rhoddion a awgrymir yn y tymhorau prysur. Gallai fod yn werth y gost fach o argraffu arwyddion newydd.

Wrth sefydlu llawer o ddyfeisiau digidol, gallwch ddewis swm rhodd diofyn, gydag opsiwn defnyddiwr i newid y swm i'w roi. Unwaith eto, peidiwch â chael eich temptio i wneud y swm diofyn yr un peth â'r swm isaf a gynigir - er enghraifft, os yw'r opsiynau a ddangosir yn £3, £5, £10, £20, efallai mai £5 yw'r gorau i ddefnyddio fel swm diofyn. Dylai pob dyfais roi'r opsiwn i'r defnyddiwr ddewis unrhyw swm y maent ei eisiau.

MUSEUM DONATION  
**£5 VOUCHER**



PRESENT THIS VOUCHER AT THE FRONT  
DESK TO ADD A DONATION TO YOUR  
SHOP PURCHASE.

**Canlyniadau  
blwch rhoddion**

Image credit: Andrew Carnegie Birthplace Museum



## Canlyniadau blwch rhoddion

Mae yna lawer o newidynnau o ran mesur a chymharu canlyniadau codi arian blwch rhoddion ond mae canlyniadau'r arolwg yn dangos mai'r cyfartaledd a godwyd gan amgueddfeydd nad ydynt yn codi tâl yn 2025 oedd 20.9c: gostyngodd hynny i 6.4c mewn amgueddfeydd gyda thaliadau mynediad. Mae yna ddigon o amgueddfeydd, hyd yn oed y rhai heb dâl mynediad, sy'n cyflawni rhoddion cyfartalog o 1c neu 2c yn unig. Mae eraill yn sicrhau dros £1 oddi wrth eu hymwelwyr. Gyda'r defnydd cynyddol o ddyfeisiau digidol, y gobaith yw y bydd amgueddfeydd yn dechrau gallu mesur rhoddion cyfartalog fesul rhoddwr yn ogystal â fesul ymwelydd.

Roedd sefydliadau a arbrofodd gyda lleoliad a'r cyfathrebu o amgylch eu blychau rhoddion a mesur perfformiad yn fwy tebygol o fod yn elwa yn fwy na'r rhai a oedd yn goddefol.

Yr unig weithred a arweiniodd at y cynnydd mwyaf mewn rhoddion oedd pan ofynnodd staff a / neu wirfoddolwyr yn uniongyrchol i ymwelwyr ystyried gwneud rhodd.

*“Rydym wedi cael trafferth cael gwirfoddolwyr i ofyn am roddion, ond ... mae'n dibynnu'n fawr ar y person.”*

*“Yn ddiweddar, fe wnaethom benodi Hwyluswyr Ymwelwyr sydd wedi'u hyfforddi i ofyn am roddion, ac mae hyn wedi cynyddu nifer y rhoddion rydyn ni wedi'u derbyn.”*

### Aelodau AIM

Er mwyn gwneud hyn yn hyderus, mae angen i wirfoddolwyr/staff ddeall eu hunain sut mae'r amgueddfa yn cael ei hariannu a pham mae angen rhoddion. Mae angen iddynt hefyd werthfawrogi gwir werth yr amgueddfa a'i gwaith.

Ar ôl dilyn y cyngor mewn fersiwn gynharach o'r canllaw hwn, gwelodd Oriel Gelf Fry eu rhodd gyfartalog fesul ymwelydd yn dyblu o 13.84c i 27.11c.



# Rhodd Cymorth a'r cynllun Rhoddion Bach Rhodd Cymorth (GASDS)

Image credit: Clifton Suspension Bridge Museum



# Rhodd Cymorth a'r cynllun Rhoddion Bach Rhodd Cymorth (GASDS)

Dylai pob amgueddfa a sefydliad treftadaeth sydd â statws elusennol fod yn ymwybodol o bwysigrwydd hawlio Rhodd Cymorth ar roddion, gan y gall gwneud hynny gynyddu'r swm rydych chi'n ei dderbyn o 25%.

Yn ddelfrydol, dylid gofyn i bobl sy'n rhoi i flychau rhoddion arian parod lenwi ffurflen / amlen Cymorth Rhodd, ond yn aml nid yw hyn yn bosibl neu yn cael ei ystyried gan ddarpar roddwyr fel trafferth.

Peidiwch â mynnu manylion Cymorth Rhodd os gallai hyn atal pobl rhag gwneud rhodd yn y fan a'r lle, ond os ydych chi'n cynnig amlenni, cofiwch gynnwys cyfeirnod hysbysiad preifatrwydd GDPR (ee: cyfeirio at eich gwefan) a blwch ticio caniatâd cyfathrebu ar yr amlen. Mae hon yn ffordd ddefnyddiol o gasglu data.

Yn 2013 cyflwynodd CThEM y Cynllun Rhoddion Bach Rhodd Cymorth ('GASDS'), sy'n caniatáu i elusennau hawlio taliad ychwanegol Rhodd Cymorth ar roddion arian parod bach heb fod angen caniatâd Rhodd Cymorth gan y rhoddwr.

Gall elusennau ddefnyddio'r cynllun GASDS ar gyfer pob rhodd arian parod neu ddigyswllt o dan £30 yr un, hyd at gyfanswm o £8,000. Ar ei uchafswm gall hyn arwain at incwm ychwanegol o £2,000.

Mae manylion llawn y cynllun ar gael ar wefan CThEM [www.gov.uk/claim-gift-aid/small-donations-scheme](http://www.gov.uk/claim-gift-aid/small-donations-scheme)

Mae'r cynllun yn destun i ychydig o amodau allweddol:

1. Rhaid i'ch sefydliad fod wedi'i gofrestru fel elusen at ddibenion treth am o leiaf y 2 flynedd dreth gyflawn flaenorol. Rhaid i chi hefyd fod wedi gwneud hawliad Rhodd Cymorth llwyddiannus mewn o leiaf 2 o'r 4 blynedd dreth flaenorol.
2. Rhaid gwneud rhoddion mewn arian parod neu drwy daliad digyswllt ac ni ddylai fod yn fwy na £30 fesul rhoddwr.
3. Rhaid i hawliadau GASDS gael eu cyfateb â hawliadau rydych chi wedi'u gwneud yn y cynllun Rhodd Cymorth yn yr un flwyddyn mewn cymhareb o 1 i 10. Felly, os ydych chi'n hawlio Rhodd Cymorth ar roddion cymwys o £100 mewn blwyddyn, dim ond hyd at £1,000 y gallwch hawlio o dan GASDS. Felly, mae er eich budd i sicrhau eich bod yn parhau i gasglu datganiadau Rhodd Cymorth mor aml â phosibl (o unrhyw ddull o roi), gan fod hyn yn cael effaith uniongyrchol ar yr uchafswm GASDS y gallwch ei hawlio.
4. Ni ellir rhoi budd-daliadau i'r rhoddwr yn gyfnewid am y rhodd.

Gellir sefydlu dyfeisiau digidol, yn dibynnu ar y darparwr, i gasglu gwybodaeth am Rodd Cymorth a hyd yn oed i gyflwyno'r cais am Rodd Cymorth i CThEM. I'r sefydliadau hynny sy'n sicrhau lefelau uwch o roddion, mae'n werth annog pobl i ddefnyddio'r dyfeisiau digidol fel y gallwch elwa o fwy o Rodd Cymorth nag y mae'r cynllun GASDS yn ei ddarparu.

Thank You  
Very Much

**Cagliad**

Image credit: Unsplash



## Adborth arall gan aelodau

- Mae ychydig o amgueddfeydd wedi arbrofi gyda chodau QR ar gyfer rhoddion. Mae'r canlyniadau, yn ôl ein harolwg, wedi bod yn hynod siomedig.
- Mae rhai sefydliadau yn mynd â blychau rhoddion i ble mae digwyddiad yn digwydd, p'un a yw'r digwyddiad yn rhad ac am ddim ai peidio. Gall hyn fod yn llwyddiannus iawn.
- Gellir cymryd rhoddion hefyd wrth y tiliau.
- Adroddodd rhai amgueddfeydd awdurdod lleol broblemau gyda chaffael dyfeisiau digidol lle mae'r darparwr yn casglu arian.
- Nid oes unrhyw un o'r amgueddfeydd yn y sampl yn gwbl ddi-arian parod.
- Mae angen i amgueddfeydd tymhorol fod yn ofalus ynglŷn â thalu rhai o gostau misol unedau digyswllt.

## Y gair olaf

Mae buddsoddi mewn blychau rhoddion yn talu ar ei ganfed os ydych chi'n dilyn ychydig o reolau hanfodol:

- Lleoliad, lleoliad, lleoliad – arbrofwch nes i chi ddod o hyd i'r lleoliad gorau ar gyfer eich unedau. Rhowch gynnig ar y fynedfa a'r allanfa, bob amser yn wynebu'r llif ymwelwyr. Peidiwch â gosod blwch mewn lleoliad anniben, gweledol swnllyd - gadewch iddo fod yn ganolbwynt sylw.
- Y neges – treialwch negeseuon gwahanol ond gwnewch yn siŵr eu bod yn syml ac yn bersonol. Dylech osgoi anobaith – mae pobl yn rhoi llai i sefydliadau maen nhw'n meddwl a allai fethu. Sicrhewch fod negeseuon, ysgrifenedig a llafar, yn gyson, gan bwysleisio bod y sefydliad yn elusen.
- Y gofyn – annog a hyfforddi staff a gwirfoddolwyr i ofyn i ymwelwyr gyfrannu.
- Os ydych yn mynd i osod dyfais ddigidol, cymerwch amser i ymchwilio i nifer o ddarparwyr i gael yr un cywir am y pris cywir.
- Gwnewch yn siŵr bod rhoddion arian parod i'w gweld - bocs syml, proffesiynol, â gorchudd Perspex yw'r gorau.
- Dylech wagio blychau arian yn rheolaidd ond dechreuwch bob amser gyda fflôt gweladwy sy'n adlewyrchu'r rhoddion rydych chi am eu denu.
- Ystyriwch ddyrannu blwch i apêl benodol.
- Symudwch flychau rhoddion rhyngweithiol/addurniadol i ffwrdd o fynedfeydd/allanfeydd – nid nhw yw eich prif 'ofyn'.
- Os yw'ch amgueddfa yn un â mynediad rhad ac am ddim, ystyriwch awgrymu lefel rhodd briodol.
- Cadwch gofnodion o faint rydych chi'n ei godi o bob blwch a dros ba gyfnod o amser. Dylech wybod eich rhodd gyfartalog fesul ymwelydd a gosodwch darged i'ch hun i'w gynyddu.
- Gwnewch hi'n hawdd i bobl roi Rhodd Cymorth, ond peidiwch â'u gorfodi. Efallai y byddwch chi'n colli rhoddion yn y fan a'r lle os byddwch chi'n cymhlethu'r broses roi.
- Defnyddiwch logo Rhodd Cymorth ar y blwch/dyfais.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio Cynllun Rhoddion Bach Rhodd Cymorth.
- Dywedwch ddiolch bob amser.

The Future of Giving -

[www.culturehive.co.uk/wp-content/uploads/2022/07/Barclays-The-future-of-giving.pdf](http://www.culturehive.co.uk/wp-content/uploads/2022/07/Barclays-The-future-of-giving.pdf)

Charity Times (2019) Charity technology trends to watch out for in 2019. [Online].

[Accessed June 2019]. Available from - [www.charitytimes.com](http://www.charitytimes.com)

LINK research -

[www.link.co.uk/news/majority-of-uk-adults-still-value-cash-despite-digital-payments](http://www.link.co.uk/news/majority-of-uk-adults-still-value-cash-despite-digital-payments)

FinTech magazine -

[www.fintechmagazine.com/articles/barclays-uk-contactless-payments-hit-all-time-high-in-2024](http://www.fintechmagazine.com/articles/barclays-uk-contactless-payments-hit-all-time-high-in-2024)

Using contactless donations in parks – a Rethinking Parks project -

[www.media.nesta.org.uk/documents/Contactless.pdf](http://www.media.nesta.org.uk/documents/Contactless.pdf)

A paper written by a major supplier of digital devices -

[www.goodbox.com/2025/04/contactless-vs-cash-why-the-giving-landscape-is-changing/](http://www.goodbox.com/2025/04/contactless-vs-cash-why-the-giving-landscape-is-changing/)

Institute of Fundraising (2018) HM Treasury Call for Evidence on cash and digital payments in the new economy. [Online]. [Accessed June 2019]. Available from - [www.ciof.org.uk](http://www.ciof.org.uk)

Martin, R. and Randal, J. (2008) How is donation behavior affected by the donations of others?


Journal of Economic Behaviour and Organization 67.

Third Sector (2017) Charities could raise more by offering contactless donations. [Online].

[Accessed June 2019]. Available from - [www.thirdsector.co.uk](http://www.thirdsector.co.uk)

More and more suppliers of digital units have entered the market. They include but are not limited to:

- GoodBox - [www.goodbox.com](http://www.goodbox.com)
- GWD - [Contactless Fundraising For Museums & Galleries | GWD](#)
- Toucan Giving (formerly Paya Liberty) - [www.toucangiving.com](http://www.toucangiving.com)
- Give A Little - [www.givealittle.co](http://www.givealittle.co)
- CollectTin - [www.collectin.com](http://www.collectin.com)
- Donation Boxes - [www.donationboxes.co.uk](http://www.donationboxes.co.uk)
- Tap Donate - [www.tapdonate.co.uk](http://www.tapdonate.co.uk)
- Direct Fundraising - [www.direct-fundraising.co.uk](http://www.direct-fundraising.co.uk)



# Astudiaethau achos

Image credit: Staithe Museum

# Astudiaethau achos

## Amgueddfa Staithes


28,000 o ymwelwyr | Mynediad di-dâl

Mae'r Amgueddfa yn codi 75c ar gyfartaledd fesul ymwelydd mewn rhoddion o bedair uned rhoddion – dwy arian parod, dwy ddigwyffwrdd. Meddai Rosie Barnes, Rheolwr/Curadur yr Amgueddfa;

*“Yr un peth sy'n cael yr effaith fwyaf ar roddion yw a oes aelod o staff neu wirfoddolwr yn croesawu ymwelwyr, yn siarad â nhw ac yn esbonio ein bod yn dibynnu ar roddion. Mae hyn yn amlwg iawn yn ein hystadegau rhoddion.”*

Ers i'r dyfeisiau digidol gael eu gosod, mae rhoddion Rhodd Cymorth wedi cynyddu o 65% gan wneud gwahaniaeth mawr i'r ad-daliad Rhodd Cymorth.

*“Arferai ein hen flwch rhoddion arian parod i fyny'r grisiau fod â ffenestr weld a oedd yn gadael i bobl weld yr arian a gasglwyd - nawr bod hyn wedi'i dynnu, mae'n ymddangos bod swm y rhoddion yn y blwch hwnnw wedi gostwng.”*



## Amgueddfa Fywyd Tiverton a Chanol Dyfnaint

6,200 o ymwelwyr | Codi tâl mynediad (ar wahân i blant)



Gyda rhodd o 32c ar gyfartaledd, mae Amgueddfa Tiverton yn un o'r amgueddfeydd sy'n codi tâl mwyaf llwyddiannus o ran codi arian o flychau a dyfeisiau rhoddion. Yn ôl y Cyfarwyddwr, Pippa Griffith,

*“mae ein blychau rhoddion wedi gweithio orau pan maen nhw'n amlwg wedi'u neilltuo i brosiect o fewn yr adeiladau hanesyddol!”*

Mae gan yr amgueddfa dri blwch arian o amgylch y safle, gydag uned ddigyswllt Sumup syml ar ben y blwch yn y dderbynfa.

## Canolfan Ymwelwyr Clifton Suspension Bridge

65,000 o ymwelwyr | Mynediad di-dâl

Yn draddodiadol, roedd y gwirfoddolwyr yng Nghanolfan Ymwelwyr Clifton Suspension Bridge yn ofalus ynglŷn â gofyn am roddion. Ond mae recriwtio a hyfforddi Hwyluswyr Ymwelwyr wedi rhoi'r hyder i wirfoddolwyr godi'r pwnc gydag ymwelwyr. Mae gan y Ganolfan ddau flwch arian parod a thair dyfais heb arian parod. Mae un ohonynt wedi'i leoli wrth ymyl toiledau cyhoeddus y Bont. Maent yn derbyn arian parod gan dwristiaid mewn amrywiaeth o arian cyfred gyda'r Rheolwr Profiad Ymwelwyr, Dr Laura Hilton, yn egluro ei bod yn defnyddio gwefan Leftover Currency [www.leftovercurrency.com](http://www.leftovercurrency.com) drosi darnau arian tramor yn roddion gwerthfawr.





# Am yr Awdur

Mae Judy Niner wedi gweithio gyda nifer o amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth yn y DU, rhai mawr a bach, gan ganolbwyntio'n bennaf ar godi arian a chynhyrchu incwm. Sefydlodd Judy Development Partners yn 2000 ac mae wedi dal swyddi uwch yn yr Amgueddfa Wyddoniaeth a Waddesdon Manor. Bu'n Gadeirydd Ymddiriedolaeth Treftadaeth Cogges am ei 10 mlynedd cyntaf, ac mae wedi bod yn Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Waterways ac Amgueddfa a Chanolfan Stori Roald Dahl.

[www.development-partners.co.uk](http://www.development-partners.co.uk)